OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif. 2330 (Cy.245)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *26 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer- Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 3, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 70 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Glanconwy a Morfa Conwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 80 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Cyfnewidfa Glanconwy hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol y bont i Forfa Conwy yng Nghyfnewidfa Morfa Conwy.

**3.** Atelir y terfyn cyflymder a bennir yn erthygl 2 os bydd terfyn is yn gymwys yn rhinwedd Gorchymyn traffig dros dro ar wahân.